

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Aseiad Iles Pont-y-pŵl

Aseiad Iles ar gyfer ardal leol Torfaen

Cyfeirnod y ddogfen: T02
Chwefror 2022

Cynnwys

1	Disgrifiad o'r ardal	2
2	Ynglŷn â Phont-y-pŵl	3
3	Lles Cymdeithasol.....	4
3.1	Ynglŷn â'r gymuned.....	4
3.2	Teithio o gwmpas	5
3.3	Mynediad i wasanaethau a throedd	7
3.4	Tai, aelwydydd ac iechyd	9
4.	Economi	14
4.1	Addysg, sgiliau a gwaith.....	14
5.	Yr Amgylchedd.....	18
6.	Diwylliant.....	22
7	Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym.....	25
8	References	27

1 Disgrifiad o'r ardal

Wedi'i lleoli yng nghanol Torfaen, mae llawer o gymunedau llai yn yr ardal asesu, wedi eu lleoli o amgylch prif anheddiad Pont-y-pŵl. Mae'r rhain yn cynnwys Abersychan i'r gogledd, Y Dafarn Newydd i'r dwyrain, a Waunfelin a Chwm-ynys-cou i'r gorllewin. Mae Panteg i'r de, sy'n cynnwys ardaloedd Tref Gruffydd a Sebastopol.

Adeiladwyd Pont-y-pŵl ar sylfaen cyfoeth diwydiannol ac mae'n honni'n gryf mai hi yw'r 'dref ddiwydiannol' gyntaf yng Nghymru. Roedd ffwrneisi a gefeiliau haearn yn gweithredu mor gynnar â'r 1400au. Rhwng y 1700au a'r 1900au ffynnodd yr ardal fel canolbwynt pwysig ar gyfer nwyddau 'Japan' haearn a thunplat a daeth tref brysur i'r amlwg.


Roedd gan y dref gysylltiadau cryf â theulu lleol, sef yr Hanbury's, cysylltiadau sy'n parhau hyd heddiw, a hwy oedd yn gyfrifol, yn y 19eg ganrif, am greu'r rhan fwyaf o adeiladau dinesig a chrefyddol pwysig y dref, yn ogystal â Pharc Pont-y-pŵl.

Mae Pont-y-pŵl wedi colli llawer o'i diwydiant trwm ac wedi wynebu her gynyddol gan y "dref newydd" gyfagos Cwmbrân. Mae ei gorffennol diwydiannol hefyd yn golygu bod yr ardal wedi'i datblygu'n helaeth.

Heddiw, mae tref Pont-y-pŵl yn adnabyddus am ei threftadaeth bensaernïol nodedig, ei pharc rhestredig a'i gerddi Eidalaidd, ei marchnad Fictoraidd ac ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol. Mae canol y dref yn cynnig cyfleusterau manwerthu, cyflogaeth a hamdden i'r anheddau cyfagos a thu hwnt.

Mae llawer o gyfleoedd ar gyfer hamdden ac ymarfer corff, dan do ac yn yr awyr agored. Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen yn rhedeg Canolfan Byw Egnïol Pont-y-pŵl a Chanolfan Sgïo Pont-y-pŵl ym Mharc Pont-y-pŵl, tra gall cerddwyr ddewis dilyn Afon Lwyd, archwilio tirweddau'r tiroedd uchel neu fwynhau llonyddwch Camlas Mynwy ac Aberhonddu. Mae basn y gamlas ym Mhont-y-moel yn fan cychwyn gwyh i grwydro ar hyd y llwybr tynnu.

Mae Llyn Llandegfedd ar y ffin rhwng Torfaen a Sir Fynwy ac mae'n lleoliad ar gyfer chwaraeon dŵr, gwyllo adar, pysgota a cherdded.




Ffigur 1: Y Gerddi Eidalaidd, Parc Pont-y-pŵl



Ffigur 2: Y Tŵr Ffoli, Parc Pont-y-pŵl

2 Ynglŷn â Phont-y-pŵl

Ardal	65.3 km² – tua 52% o gyfanswm arwynebedd Torfaen sy'n 126km ²
Poblogaeth 	Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn 37,700 , sef tua 40% o gyfanswm poblogaeth Torfaen, sy'n 94,000 ¹ .
Dwysedd y Boblogaeth	Dwysedd y boblogaeth yw 5.77 person yr hectar, gyda mwyafrif y bobl yn byw ym Mhanteg 4 a Choed Llwyd. Mae 7.45 o bobl yr hectar yn Nhorfaen ² .
Anheddau 	Nifer yr anheddau a gyfrifwyd yw 16,955 , tua 40% o gyfanswm yr anheddau yn Nhorfaen sy'n 42,645 ³ .



Ffigur 3: Map o Bont-y-pŵl yn dangos y 5 MSOA

Cyffredinol Mae Pont-y-pŵl yn cynnwys 5 Ardal Gynnyrch Ehangach Ganol (MSOA), gyda 24 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOA) o fewn ei ffin. Wrth ystyried yr ardaloedd daearyddol llai hyn, gallwn weld pa mor wahanol yw lles o fewn cymunedau.

Pontypool North	
LSOA	MSOA
Abersychan 1	Torfaen 002A
Abersychan 2	Torfaen 002B
Abersychan 3	Torfaen 002C
Abersychan 4	Torfaen 002D
Abersychan 5	Torfaen 002E
Pontypool Central	
LSOA	MSOA
Sant Cadog a Phen-y-garn	Torfaen 003A
Coed Llwyd	Torfaen 003B
Trefddyn 1	Torfaen 003C
Trefddyn 2	Torfaen 003D

Gorllewin Pont-y-pŵl	
LSOA	MSOA
Brynwern	Torfaen 004A
Cwm-ynys-cou	Torfaen 004B
Pontnewynydd	Torfaen 004C
Pont-y-pŵl	Torfaen 004D
Waunfelin 1	Torfaen 004E
Waunfelin 2	Torfaen 004F
Dwyrain Pont-y-pŵl	
LSOA	MSOA
Y Dafarn Newydd 1	Torfaen 005A
Y Dafarn Newydd 2	Torfaen 005B
Y Dafarn Newydd 3	Torfaen 005C
Y Dafarn Newydd 4	Torfaen 005D


De Pont-y-pŵl	
LSOA	MSOA
Panteg 1	Torfaen 006A
Panteg 2	Torfaen 006B
Panteg 3	Torfaen 006C
Panteg 4	Torfaen 006D
Panteg 5	Torfaen 006E

3 Lles Cymdeithasol

3.1 Ynglŷn â'r gymuned

Trwy ddeall sut y gallai'r boblogaeth newid yn y dyfodol gall ein helpu i feddwl am heriau a chyfleoedd lles allweddol.

Amcangyfrifir bod y boblogaeth gyffredinol ym Mhont-y-pŵl wedi cynyddu o ryw 1660 o drigolion, o 36,010 yn 2001 i 37,670 yn 2019 (+4.6%), o gymharu â Chymru (+8.6%). Gwelwyd y mewnlif net fwyaf ym Mhanteg 4 (+1122) a'r all-lif fwyaf oedd o'r Dafarn Newydd 3 (-283) ⁴.



Ffigur 4: Amcangyfrifol canol blwyddyn- 2019 fesul oedran ar gyfer Pont-y-pŵl o gymharu â Chymru

Gallai poblogaeth gynyddol ddenu a chynnal cynnig manwerthu yng nghanol y dref.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth gyffredinol yn Nhorfaen yn cynyddu 5.5% rhwng 2018 a 2043 ⁵. I Bont-y-pŵl, gallai hyn olygu **1,964** o bobl ychwanegol ⁶.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 0-15 oed sy'n byw yn Nhorfaen yn **gostwng 3%** rhwng 2019 a 2043, yn weddol debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru ⁷. I Bont-y-pŵl gallai hyn olygu **220 yn llai** o bobl yn yr ystod oedran hon ⁸.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16-64 oed sy'n byw yn Nhorfaen yn gostwng 14% erbyn 2036 ond yna'n dychwelyd i'w lefel yn 2019 erbyn 2043 ⁹.

Efallai y bydd Pont-y-pŵl y dyfodol yn denu trigolion newydd sy'n gallu gweithio gartref a byddant am dai sydd o werth gwell.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n byw yn Nhorfaen yn **cynyddu 28%** rhwng 2019 a 2043, sy'n weddol debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru ¹⁰. I Bont-y-pŵl, gallai hyn olygu **2,170** o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran hon ¹¹.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed a hŷn sy'n byw yn Nhorfaen yn **cynyddu 70%** rhwng 2019 a 2043, sy'n weddol debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru. I Bont-y-pŵl gallai hyn olygu **640** o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran hon ¹².

Gallai mwy o bobl yn byw yn hirach olygu mwy o alw am ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn y dyfodol.

Nid yw'r data diweddaraf o gyfrifiad 2021 ar gael i'w ddefnyddio eto ond mae'r cyfrifiad diweddaraf yn dangos:

Siaradwyr Cymraeg	Gall 9.3% o drigolion Pont-y-pŵl siarad Cymraeg, sy'n gyfystyr â hanner y cyfartaledd yng Nghymru (19%). Mae'r nifer uchaf yng Ngogledd Pont-y-pŵl (11.4%), a'r isaf yn Nwyrain Pont-y-pŵl (8.6%) ¹³ .
Gwlad enedigol	Cafodd 87.2% o drigolion Pont-y-pŵl eu geni yng Nghymru ¹⁴ .
Ethnigrwydd	Mae 98.7% o drigolion o ethnigrwydd Gwyn. Mae llai na 500 o bobl o ethnigrwydd nad yw'n Wyn ¹⁵ . Mae gan Bont-y-pŵl gymuned sipsiwn/teithwyr yng Nghwm-ynys-cou. Amcangyfrifwyd yng Nghyfrifiad 2011 bod ychydig dros 100 o drigolion ym Mhont-y-pŵl o ethnigrwydd sipsiwn neu deithwyr Gwyddelig, ond mae'n debygol mai tanamcangyfrifad yw hwn.
Crefydd	Mae 55.4% o drigolion yn nodi bod eu crefydd yn seiliedig ar Gristnogaeth. 0.8% o bobl yn unig sydd â chrefydd Anghristnogol. Nid oes gan 36% o drigolion ffydd crefyddol ¹⁶ .

Bydd cymryd camau i helpu i gefnogi a thyfu'r Gymraeg yn helpu i ddiogelu diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

3.2 Teithio o gwmpas

Mae pobl yn teithio am amryw o resymau i mewn ac allan o ardal Pont-y-pŵl; a hynny am resymau hamdden neu i gwrdd â ffrindiau a

theulu, i dderbyn addysg neu i weithio, i symud nwyddau neu i ddarparu gwasanaethau, neu i ddefnyddio gwasanaethau eu hunain.

Mae Pont-y-pŵl wedi'i leoli yng nghanol Torfaen, ac oddi yno gellir cael mynediad i Gaerffili a'r cymoedd gorllewinol tu hwnt ar hyd yr A472 rhwng Pont-y-pŵl a Chrymlyn. Yn nodweddiadol, mae 16,000+ o gerbydau yn cael eu cludo mewn diwrnod¹⁷.

Mae'r A4043 Snatchwood Road i Bont-y-pŵl barhad o'r A4043 o Flaenafon, mae yno gyfyngiad 30 milltir yr awr a gall parcio wrth ochr y ffordd effeithio arno. Mae problemau o ran capasiti yn ystod yr oriau teithio prysuraf, yn enwedig drwy Bontnewynydd. Ar ddiwrnod arferol yn ystod yr wythnos mae **16,230** o gerbydau, ar gyfartaledd yn teithio ar hyd y ffordd hon (i'r gogledd a'r de) ¹⁸. Mae'r ffordd yn mynd drwy'r dref ac i'r A472, a'r A4042T i Gasnewydd a'r Fenni.

Mae gwaith monitro ansawdd aer lleol wedi dangos bod yna fan problemus o ran llygredd traffig i'r gogledd o dref Pont-y-pŵl, ar y brif ffordd (A4043) rhwng Pontnewynydd ac Abersychan.

Mae'r B4246 Varteg i Abersychan yn teithio trwy bentrefi cyfagos Garndiffaith, Varteg a Thal-y-waun. Yn amodol ar gyfyngiad i 30mya, dyma fyddai'r brif ffordd gyswllt i unrhyw ddatblygu yn y dyfodol ar safle'r British. Yn nodweddiadol, mae yna, **2,540** o gerbydau yn teithio ar y ffordd hon ar ddiwrnod arferol yn yr wythnos (i'r gogledd a'r de) ¹⁹.

Yr orsaf reilffordd agosaf yw'r Dafarn Newydd, sy'n daith gerdded gyflym o Ganol Tref Pont-y-pŵl. Nid yw pob trên yn stopio ym Mhont-y-pŵl, felly mae rhai pobl yn dewis cymudo o Orsaf Cwmbrân i roi mwy o hyblygrwydd iddynt wrth deithio.



Gall trafnidiaeth a'i hygyrchedd gael effaith sylweddol ar aelwydydd ar incwm isel neu incwm cyfyngedig, gall prisiau cyfredol olygu bod trafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn drud i'r rhai sy'n dibynnu arno.

Bydd lleihau **costau trafnidiaeth** yn gallu cynyddu incwm gwario a dod â phobl sy'n gweithio allan o dlodi.

Yn 2020, fe wnaeth y Cyngor osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym mhedwar o'r meysydd parcio yn ardal Pont-y-pŵl.

Yn y dyfodol, bydd angen mwy o gyfleusterau gwefru trydan ar Bont-y-pŵl.

Gall cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus wneud cyfraniad pwysig i anghenion trafnidiaeth lleol, wrth hefyd helpu i fynd i'r afael â materion fel **tagfeydd**, **llygredd** a **newid yn yr hinsawdd** sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar gar.

Gall llwybrau teithio llesol, diogel, yn enwedig y rheini sy'n cynnig y potensial i gymudo, helpu i gefnogi **ffyrdd iach o fyw**.

Yn y dyfodol gallai fwy o bobl ddewis i deithio'n llesol fel y gallant gadw'n iachach wrth heneiddio.



Cyn y pandemig, roedd ychydig dros **30%** o'r bobl sy'n byw ym Mhont-y-pŵl hefyd yn gweithio yno, ond roedd y mwyafrif yn teithio i weithio. Arferai tua **26%** deithio i Gwmbrân i weithio, a **5%** yn unig oedd yn teithio i Gaerdydd. Roedd **370** o bobl o Flaenafon yn teithio i Bont-y-pŵl i weithio a **1876** o Gwmbrân ²¹.

Efallai na fydd cenedlaethau'r dyfodol yn teithio cymaint i'r gwaith.

Mae Covid-19 wedi golygu bod mwy ohonom yn gweithio o gartref ac yn defnyddio gwasanaethau ar-lein, ond mae yna wahanol fathau



Pont-y-pŵl - Mae 15% o'r trigolion sy'n gweithio (2430) yn cael eu cyflogi yn y maes ieuchyd dynol a gwaith cymdeithasol ac mae 15% arall (2360) yn cael eu cyflogi yn y maes manwerthu a chyfanwerthu ²⁰.

o waith na fedrir ei wneud o bell nac yn ddigidol.

Gallai rhai o'r swyddi yn y maes cyfanwerthu a manwerthu ymwneud â dosbarthu ar-lein.

Mae angen i Bont-y-pŵl y dyfodol fod yn seiber-ddiogel a chynhwysol yn ddigidol.

Mynediad i Fand Llydan



Mae rhwng 1.7% (Canol Pont-y-pŵl) a 13.9% (Gorllewin Pont-y-pŵl) o gartrefi yn methu cyrchu band llydan sydd o leiaf ar gyflymder o 30Mb/s ²².

Gall technoleg band llydan symud yn gyflym, felly erbyn hyn efallai bod mwy o gartrefi yn gallu cael mynediad at fand eang. Ond, nid yw gallu cael mynediad at fand eang yr un peth â'i gael. Gall fforddiadwyedd a/neu lythrennedd digidol fod yn rhwystr i rai aelwydydd.

Efallai y bydd cymunedau'r dyfodol yn llai dibynnol ar systemau telathrebu sefydlog ac efallai y bydd mwy o bobl yn defnyddio 5G ayyb.

Nid ydym yn gwybod a fydd gweithio gartref yn drefniant parhaol neu a fydd pobl yn dechrau dychwelyd i'w gweithleoedd neu'n dewis defnyddio gwasanaethau wyneb yn wyneb neu gyfuniad o bopeth.

3.3 Mynediad i wasanaethau a throsedd



Mae tref Pont-y-pŵl yn darparu cyfleusterau manwerthu, cyflogaeth a hamdden i'r aneddiadau cyfagos a thu hwnt. Mae rhai

gwasanaethau neu gyfleusterau, mae angen i drigolion deithio i Gwmbrân, Casnewydd, neu rywle arall i gael mynediad iddynt.




Cyn Covid, roedd nifer y **lleoedd gwag** yng Nghanol Pont-y-pŵl yn **17.5%** ²³.

Roedd y monitro yn 2021 yn dangos bod nifer y lleoedd gwag wedi cynyddu i **20%** ²⁴. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o fod ynghlwm â chyfyngiadau'r pandemig a mwy yn prynu ar lein.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae rhai o'r prif fanciau a chymdeithasau adeiladu sy'n frandiau mawr, wedi gadael y dref. Mae Pont-y-pŵl hefyd wedi colli rhagor o'r ddarpariaeth manwerthu yn sgil y pandemig.

Mae **llyfrgell** a chanolfan **Addysg Oedolion Cymunedol** ym Mhont-y-pŵl, yn cynnig gwasanaethau cynghori a chysiau ffordd o fyw. **Gallant fod yn byrth datblygu sgiliau yn y dyfodol.**



Ffigur 5:Llyfrgell Pont-y-pŵl



Ffigur 6: Marchnad Dan-do Pont-y-pŵl

Mae **Ysbyty'r Sir** yn darparu ystod eang o wasanaethau iechyd gan gynnwys ffisiotherapi, cleifion allanol, gwelyau adsefydlu ar draws dwy ward ysbyty, gwasanaethau cleifion mewnol iechyd meddwl a'r henoed â salwch meddwl ynghyd â gofal cymdeithasol a gwasanaethau trydydd sector.

Mae pedair ysgol uwchradd a naw ysgol gynradd yn ardal Pont-y-pŵl. Darperir addysg ôl-16 ar gyfer y fwrdeistref mewn cyfleuster newydd yng Nghwmbrân.

Gallai gwella'r gwasanaethau a ddarperir eisoes yng nghanol y dref ddarparu cyfleoedd gwaith, diwylliannol a hamdden i genedlaethau'r dyfodol.

Yn y dyfodol efallai y bydd mwy o bobl yn dewis adleoli i Bont-y-pŵl o ardaloedd ble mae tai yn ddrutach – yn enwedig os ydynt yn gallu gweithio o gartref.

Oni bai bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'r lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, efallai na fydd ganddynt yr hyder na'r awydd i ddefnyddio gwasanaethau na chymryd rhan ym mywyd y gymuned.



Mae lladrata yng nghymunedau Pont-y-pŵl ar ei lefel uchaf yn Ne Pont-y-pŵl gyda **1.87 o achosion fesul 100** o'r boblogaeth o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru sy'n **0.98**. LSOA Trefddyn 2 sydd â'r gyfradd uchaf, sef **2.79**. Mae difrod troseddol ar ei uchaf yng nghymuned Canol Pont-y-pŵl sef **2.59** o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sy'n **1.14**. Trefddyn 2 sydd â'r gyfradd uchaf, sef **3.69**²⁵.

Bydd delio â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi gwell cydlyniant yng nghymunedau Torfaen.

3.4 Tai, aelwydydd ac iechyd

Bydd angen y math iawn o dai ar genedlaethau'r dyfodol sy'n byw ym Mhont-y-pŵl i gefnogi eu hanghenion.

Y Stoc Dai	Mae mwyafrif y tai yn stoc hŷn o'r 19eg a'r 20fed Ganrif, nid ydynt yn defnyddio ynni'n effeithlon . Mae yna nifer sylweddol o dai o'r cyfnod yn dilyn y rhyfel, a hynny yn Nhrefddyn a'r Dafarn Newydd.
Band Treth y Cyngor	Mae ychydig dan hanner y tai ym Mhont-y-pŵl (48.5%) ym mand A neu B treth y cyngor , sef y categori isaf o ran gwerth tai. Mae dwy ran o dair (65.6%) o dai ban A a B yng Ngogledd Pont-y-pŵl Mae Dwyrain Pont-y-pŵl yn lled wahanol gyda nifer fwy o eiddo o werth uwch ac 14.8% yn unig sydd ym mandiau A neu B. Mae 93.4% o eiddo LSOA Trefddyn 1 ym mandiau A neu B ²⁶ .
Daliadaeth	Mae trigolion yn nhraean o'r tai ym Mhont-y-pŵl (33.5%) yn berchen arnynt yn llwyr, sy'n gyfystyr â Chymru. Mae hyn yn sylweddol uwch yn Nwyrain Pont-y-pŵl (43.4%). Mae un ymhob pump o dai yn cael eu rhenti gan yr Awdurdod Lleol neu LCC (21.8%)*, sy'n sylweddol uwch na Chymru (16.1%). 38.3% yw hyn yng Nghanol Pont-y-pŵl, a 60.3% yn Nhrefddyn 1 o fewn yr MSOA ²⁷ hwnnw. * Yn Nhorfaen nid oes unrhyw dai yn eiddo i'r awdurdod lleol, felly mae'r data hwn yn ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn unig .

Mae'r data'n dweud wrthym y rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn sy'n byw yn Nhorfaen yn cynyddu yn y dyfodol ac y bydd angen tai addas arnynt.

Pe bai tai'r dyfodol yn gwella o ran effeithlonrwydd ynni, byddai cartrefi'n gynhesach, yn rhatach i'w rhedeg a byddent yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon.



Mae asesiad risg hinsawdd y DU yn nodi risgiau i iechyd a lles o ran tymheredd uchel. Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r risg i gartrefi Cymru yn hysbys ²⁸.

Bydd angen i gartrefi'r dyfodol wrthsefyll hinsawdd sy'n newid.



Cost eiddo ar gyfartaledd yn ardal Pont-y-pŵl (codau post NP48) yn ystod 2020 oedd **£190,033**²⁹.

Yr incymau blynyddol ar gyfartaledd yn Nhorfaen yw tua **£32,600**³⁰ a'r gymhareb pris tai: incwm yw tua **5.8:1**. Mae hyn yn golygu y byddai rhaid i ymgeisydd sengl wario 5.8 gwaith ei gyflog i allu prynu eiddo, sy'n golygu bod hyn yn atal y mae'r mwyafrif o bobl sengl i brynu heb gymorth.

Bydd angen i genedlaethau'r dyfodol gael mynediad i dai fforddiadwy.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r modd swyddogol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i fesur tlodi cymharol. Mae'n nodi'r cymunedau hynny, o ran daearyddiaeth LSOA, sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae MALIC yn rhestru pob LSOA yng Nghymru o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig.

Mae Ffigurau 5 i 9 yn rhoi trosolwg o raddfa'r amddifadedd cymharol ledled Blaenafon yn seiliedig ar ddata o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)


Mae amrywiaeth eang yn lefel yr amddifadedd a wynebwr ar draws Pont-y-pŵl.

Trefddyn 1 yw'r LSOA mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen ac mae yn y 10% uchaf o'r LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'n wynebu heriau penodol sy'n gysylltiedig ag incwm isel, iechyd, cyrhaeddiad addysg a diogelwch cymunedol.


Bydd chwalu patrymau amddifadedd rhwng cenedlaethau yn helpu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu potensial.

Amddifadedd Cyffredinol	Mae Trefddyn 1 yn y 10% uchaf o'r LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru
Amddifadedd o ran incwm	Trefddyn 1 yw'r ardal sy'n wynebu'r amddifadedd uchaf o ran incwm (39%) a'r Dafarn Newydd yw'r ardal sy'n wynebu'r lleiaf (3%). Mae Trefddyn 1 ac Abersychan 2 yn y 10% uchaf o'r LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
Iechyd	Mae Abersychan 1, Abersychan 2 a Threfddyn 1 yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
Addysg	Mae Sant Cadog a Phen-y-garn, Trefddyn 1 a Chwm-ynys-cou yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
Diogelwch Cymunedol	Mae Abersychan 4, Sant Cadog a Phen-y garn, Trefddyn 1 a 2 a Phont-y-pŵl yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.


Asesiad Lles Pont-y-pŵl




Ffigur 7: Safle Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ar gyfer Gogledd Pont-y-pŵl:




Ffigur 8: Safleoedd MALIC ar gyfer Canol Pont-y-pŵl



Ffigur 9: Safleoedd MALIC ar gyfer Gorllewin Pont-y-pŵl



Ffigur10:Safleoedd MALIC ar gyfer Dwyrain Pont-y-pŵl



Ffigur 11: Safleoedd MALIC ar gyfer De Pont-y-pŵl

Gall gweithio fod yn llwybr allan o amddifadedd, ond pan mae cyflog yn isel, oriau gwaith yn gyfyngedig neu'r ddau, efallai nad yw hyn yn wir. Mae'r data'n awgrymu bod rhai pobl sy'n byw yng nghymunedau Pont-y-pŵl yn wynebu tlodi yn y gwaith.

Mae chwarter y bobl o oedran gwaith yn Nhrefddyn 1 yn derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth³².

Mae banciau bwyd yn arwydd pwysig o'r anghydraddoldeb economaidd sy'n bodoli yn ein cymunedau. Nid Banc Bwyd y Cwm Dwyreiniol yw'r unig fanc bwyd y gall trigolion sy'n byw ym Mhont-y-pŵl ei gyrchu, felly nid yw'r data'n dangos darlun llawn.

Parseli Banc Bwyd	Rhoddwyd 9752 o barseli bwyd i drigolion Torfaen gan Fanc Bwyd y Cwm Dwyreiniol rhwng Ionawr 2018 a Mehefin 2021 ³¹ . Mae hyn yn gyfystyr â 232 o barseli'r mis ar gyfartaledd. Derbyniodd trigolion Pont-y-pŵl 4436 o'r parseli hyn. Trigolion Canol Pont-y-pŵl oedd y rhai a ddefnyddiodd y gwasanaeth fwyaf, gyda 1692 o barseli; sef 40 parsel y mis ar gyfartaledd .
--------------------------	---

Gall rhandiroedd ddarparu ffynhonnell fforddiadwy o fwyd o ansawdd da, sy'n hanfodol ar gyfer diet iach. Gall y gweithgaredd corfforol sy'n gysylltiedig â chadw rhandir hefyd gynnig buddion iechyd ehangach. Nid oes gan bawb ardd neu le addas i dyfu ffrwythau a llysiau. Mae yna 18 o safleoedd rhandiroedd sy'n eiddo i'r Cyngor yn ardal Pont-y-pŵl, a rheolir gan Gymdeithas Rhandiroedd y Cwm Dwyreiniol. Ym mis Hydref 2021, roedd nifer fechan iawn o leiniau gwag yn ardal Pont-y-pŵl. Mae rhestr aros fer

hefyd ar gael am leiniau³³. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r lleiniau gwag mewn lleoliadau sydd â'r galw mwyaf.

Mae darparu prydau bwyd ysgol iach yn gallu gwella iechyd cyffredinol, cefnogi gallu plentyn i ddysgu a dylanwadu ar ddewisiadau bwyd i ffwrdd o'r ysgol.



Mae **29.4%** o blant sy'n byw ym Mhont-y-pŵl sy'n mynychu ysgolion yn Nhorfaen yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim³⁴

Bydd angen bwyd lleol, cynaliadwy ar genedlaethau'r dyfodol sy'n eu cadw'n iach, yn darparu swyddi da a hynny heb niweidio ein hamgylchedd.

Gwyddom fod peth o'r bwyd rydym yn ei brynu yn yr archfarchnadoedd yn teithio'n bell i gyrraedd ein plât, rydym hefyd yn gwybod y gall problemau sy'n digwydd mewn un rhan o'r byd effeithio ar gyflenwad, argaeledd a chost.

Mae bwyd a'r pellter y gall deithio, yn gwneud cyfraniad sylweddol i allyriadau carbon yn lleol ac yn fyd-eang.

Gall cyrchu bwyd yn lleol, lleihau milltiroedd bwyd a bwyta'n dymhorol oll helpu i leihau allyriadau carbon.

Mae perthynas gref rhwng ymddygiad sy'n niweidio iechyd ac amddifadedd a'r amgylchiadau bywyd sy'n cyd-fynd ag ef, sy'n golygu bod cyfraddau'n uwch mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog uwch.

Bydd atal ymddygiadau sy'n niweidio iechyd a hybu lles meddwl yn helpu i fynd i'r afael â phrif achosion marwolaeth a salwch cyn pryd, yn gohirio eiddilwch ac yn helpu oedolion o oedran gweithio i fyw bywydau iachach am gyfnod hirach.

Er bod iechyd a hunan-gofnodir yn dda, **29.7%** mae gan y bobl sy'n byw yn ardal Canol Pont-y-pŵl salwch hirdymor sy'n cyfyngu ac mae cyfraddau marwolaethau cyn pryd yn Abersychan 2 **bron i ddwywaith y gyfradd ar gyfartaledd** yng Nghymru. **Mae yn Nhrefddyn 1** y lefelau uchaf (**35.7%**) o gyflyrau iechyd cronig, salwch hirdymor sy'n cyfyngu ac iechyd meddwl gwael ym Mhont-y-pŵl.

Dywedodd arolwg cyn Covid ar gyfer trigolion Pont-y-pŵl³⁵ wrthym bod.....

Iechyd corfforol	67% o'r rheini a ymatebodd yn ystyried bod eu hiechyd corfforol yn eithaf da/da iawn. Mae tua 10% yn ei ystyried yn weddol wael/wael iawn.
Iechyd meddyliol ac emosiynol	o'r rheini a ymatebodd yn ystyried eu hiechyd meddyliol ac emosiynol yn dda iawn/weddol dda. Mae tua 9% o drigolion yn ei ystyried yn weddol wael/wael iawn.

Bydd cymryd camau i leihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli, yn lleihau effaith iechyd gwael ar genedlaethau'r dyfodol.

Salwch hirdymor sy'n cyfyngu	Yn y 5 cymuned ym Mhont-y-pŵl, mae lefelau salwch hirdymor sy'n cyfyngu, yn amrywio o gyfradd is o 19.8 fesul 100 o'r boblogaeth yn Nwyrain Pont-y-pŵl i gyfradd uwch o 29.7 yng Nghanol Pont-y-pŵl. Mae 3 o'r 5 cymuned yn uwch na'r gyfradd ar gyfartaledd yn Nhorfaen (24.2), mae 4 yn uwch na'r gyfradd yng Nghymru (22.7). Yn yr ardaloedd LSOA daearyddiaeth llai o fewn y cymunedau hyn, mae'r cyfraddau'n amrywio rhwng 17.3 yn Y Dafarn Newydd 4 a 35.7 yn Nhrefddyn 1 ³⁶ .
Cyfradd marwolaethau: pob achos	Yn y 5 cymuned ym Mhont-y-pŵl, mae lefelau pob achos o farwolaeth yn amrywio o gyfradd is o 879.1 fesul 100k o'r boblogaeth yn Nwyrain Pont-y-pŵl i gyfradd uwch o 1243.7 yng Nghanol Pont-y-pŵl. Mae 3 o'r cymunedau hyn yn uwch na'r cyfartaledd yn Nhorfaen a Chymru, sef 1078.7 a 1048.3 yn ôl eu trefn ³⁷ .
Marwolaeth cyn pryd	Mae cyfraddau marwolaethau cyn pryd (dan 75) yng nghymunedau Pont-y-pŵl yn amrywio o 242.1 fesul 100,000 yn Nwyrain Pont-y-pŵl i 499.8 yng Nghanol Pont-y-pŵl. Y cyfartaledd yng Nghymru yw 382.4 fesul 100,000 . Abersychan 2 sydd â'r gyfradd uchaf, sef 638.6 fesul 100,000 ³⁸ .

Gallai mwy o bobl yn byw'n hirach gydag ystod a chymhlethdod ehangach o gyflyrau iechyd cronig olygu mwy o alw am ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn y dyfodol.

4. Economi

4.1 Addysg, sgiliau a gwaith

Mae pobl sydd â mwy o gymwysterau fel arfer wedi cael dechrau da mewn bywyd, maent yn mynd ymlaen i gael swyddi gwell gyda chyflogau uwch, maent yn gallu ymgysylltu'n well â gwasanaethau ac mae eu hiechyd yn well.

Mae data MALIC yn dweud wrthym fod gan Sant Cadog a Phen-y-garn a Threfddyn y sgorau pwyntiau isaf ar gyfartaledd yn y cyfnod sylfaen ym Mhont-y-pŵl. Mae hyn yn golygu bod yna bobl ifanc yn ein cymunedau sy'n cael anawsterau i gyflawni'r cyfnodau cynnar yn eu cyflawniad addysgol, gallai hyn gynyddu'r siawns na fyddant yn gwneud yn dda nes ymlaen. Mae data MALIC hefyd yn dweud wrthym fod gan rai o gymunedau Pont-y-pŵl lefelau uchel o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae hyn yn dweud wrthym y gallai ffactorau cymdeithasol-economaidd fod yn cyfrannu at fylchau cyrhaeddiad rhwng cymunedau.

Bydd cefnogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol yn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddynt.

Mae Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACEs) yn brofiadau sy'n achosi cymaint o straen yn ystod plentyndod a gall hyn beri poen yn uniongyrchol i blentyn, fel camdriniaeth neu esgeuluso, neu fe all effeithio arnynt drwy'r amgylchedd y maen nhw'n byw ynddo, fel cael eu magu mewn cartref lle mae trais domestig neu unigolion sy'n camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill.

Nid oes gwybodaeth am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar gael ar lefel leol ar gyfer Pont-y-pŵl. Fodd bynnag, mae'n hysbys bod y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd mewn mwy o berygl o wynebu amryw o brofiadau niweidiol.

Bydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael y dechrau gorau mewn bywyd trwy brofi ymddygiad teuluol iach, yn enwedig yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf, a thorri'r cylch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

O dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, mae gwaith wedi'i wneud i wella cyfleusterau dysgu ledled Torfaen. Ym Mhont-y-pŵl mae addasiadau wedi'u gwneud i un ysgol gynradd (George Street), cafodd dwy ysgol gynradd (Garnteg a Chwmffrwdor) eu hymestyn, cafodd ysgol gynradd arall (Pen-y-garn) ei hadnewyddu, ac mae darpariaeth gynradd yn cael ei hychwanegu yn Ysgol Gyfun Gwynllyw i ymestyn ystod oedran yr ysgol honno i 3-18. Mae maes chwaraeon 3G hefyd wedi'i ychwanegu mewn ysgol uwchradd (Gorllewin Mynwy) ac mae gwaith adnewyddu ar fin dechrau mewn ysgol gynradd arall (Ysgol Bryn Onnen). Buddsoddwyd hefyd mewn darpariaeth ôl-16 newydd

yng Nghwibrân. Trwy gefnogi dulliau addysgu modern, bydd disgyblion a chymunedau yn elwa nawr ac yn y dyfodol.

Mae trigolion rhwng 25 a 64 ym Mhont-y-pŵl, heb unrhyw gymwysterau yn amrywio o 13.3% yn Nwyrain Pont-y-pŵl i 32.3% yng Nghanol Pont-y-pŵl, o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sy'n 19.4%. **Trefddyn 1** yw'r LSOA sydd â'r **gyfradd uchaf, sef 42.0%** ³⁹.

Absenoldeb o'r ysgol dro ar ôl tro	Mae disgyblion sy'n byw ym Mhont-y-pŵl ac yn absennol o'r ysgol dro ar ôl tro yn amrywio o 3.7% yn Ne Pont-y-pŵl i 9.3% yng Nghanol Pont-y-pŵl, o gymharu â Thorfaen (6.2%) a Chymru (5.4%). Ond, mae hyn yn cuddio'r lefel eithafol o absenolrwydd yng Nghwm-ynys-cou sy'n 21.5%, a'r gyfradd LSOA uchaf yng Nghymru ⁴⁰ .
Disgyblion nad ydynt yn cychwyn addysg uwch yn 18-19 oed	Mae disgyblion nad ydynt yn cychwyn addysg uwch rhwng 18-19 oed yng nghymunedau Pont-y-pŵl yn amrywio o 84% yng Nghanol Pont-y-pŵl i 66% yn Nwyrain Pont-y-pŵl. Yn ardal ddaearyddol LSOA llai, mae hyn yn amrywio o'r uchaf, sef 92% yn Nhrefddyn 1 i'r isaf, 47% yn Y Dafarn Newydd 3. ⁴¹ .

Mae nifer y trigolion ym Mhont-y-pŵl, 18 i 19 sy'n cychwyn yn addysg uwch yn amrywio 15.6% yng Nghanol Pont-y-pŵl i 33.6% yn Nwyrain Pont-y-pŵl, o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 29.9%. Trefddyn 1 yw'r LSOA sydd â'r gyfradd isaf, sef 8.2% ⁴².

Mae arolwg o 1058 o ddisgyblion blwyddyn 11 (16 oed) a adawodd yr ysgol ar draws Torfaen yn 2018, yn dangos bod 35% yn mynd i'r 6ed dosbarth, 49% yn mynd i'r coleg, 8.6% yn mynd i hyfforddiant yn y gwaith a 4% yn cychwyn ym myd gwaith. Mae arolwg dilynol a gynhaliwyd flwyddyn yn ddiweddarach yn 2019 yn dangos bod y rhai sy'n parhau mewn addysg amser llawn yn yr ysgol wedi gostwng 21% ar gyfer yr un garfan a bod y rhai amser llawn yn y coleg wedi gostwng 91% ⁴³.

I rai pobl ifanc, gall eu hamgylchiadau ariannol a chost ac argaeledd trafnidiaeth fod yn rhwystrau rhag mynd i addysg uwch ac aros yno.

Bydd canolbwyntio ar gymorth cyflogadwyedd i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad swyddi yn gwella cyfleoedd bywyd, yn helpu pobl i gyrraedd eu potensial ac yn cefnogi economi leol lewyrchus. Gall cael gwaith hefyd gael effaith gadarnhaol ar iechyd person.

Mae economi amrywiol ym Mhont-y-pŵl, yn ogystal â chyflogaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r brif sylfaen waith yn ardal Pont-y-pŵl yn cynnwys addysg (12.6%), cyfanwerthu a manwerthu (11.3%), a gweithgynhyrchu (11.1%) ⁴⁴.

Cyflogaeth	Mae tua 17,396 o drigolion sy'n weithgar yn economaidd ym Mhont-y-pŵl, o'r rhain:
	• Mae 13,933 yn weithwyr • 1,573 yn hunangyflogedig, a • 1,260 yn ddi-waith ⁴⁵

Sgiliau		Nifer	%
	Heb gymwysterau	8,848	29.8
	Uchaf - Lefel 2	4,750	16.0
	Uchaf - Lefel 3+	9,257	31.2 ⁴⁶
Diwydiant cyflogaeth	Y diwydiant mwyaf o ran cyflogaeth ym Mhont-y-pŵl yw iechyd dynol a'r hyn sy'n gysylltiedig â gwaith cymdeithasol - 18.6% o'r holl swyddi. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (14.6%). Mae tua 2326 o swyddi sydd ynghlwm ag iechyd dynol a gwaith cymdeithasol ym Mhont-y-pŵl. ⁴⁷		

Mae Torfaen ynghyd â 9 ardal awdurdod lleol arall yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) sydd dros gyfnod o 10 mlynedd yn ceisio cyflawni set o dargedau yn y rhanbarth gan gynnwys 25,000 o swyddi newydd erbyn 2036, gan drosoli £4bn o fuddsoddi sector preifat a sicrhau twf economaidd. Mae 8 sector blaenoriaeth wedi'u nodi fel rhai pwysig i'r rhanbarth wrth symud ymlaen⁴⁸:

Lifesciences	Fintech (financial technology)	Artificial intelligence	Creative economy
Transport engineering	Semi-conductors	Cybersecurity & analytics	Energy & environment

Ffigur 12: Sectorau o flaenoriaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae sylfaen gyflogaeth graidd Pont-y-pŵl mewn sefyllfa dda i weithio yn y sectorau hyn sydd o flaenoriaeth, yn enwedig trafnidiaeth ac ynni, ond efallai bydd cyfleoedd hefyd i fusnesau hen a newydd arallgyfeirio.

Bydd rhagweld gofynion addysg a sgiliau tymor hir yn darparu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol yn sectorau cyflogaeth yfory.

Yn ogystal â'r sectorau o flaenoriaeth, mae'r **economi sylfaenol** sy'n darparu'r gwasanaethau bob dydd y mae ein trigolion a'n busnesau yn dibynnu arnynt, fel ynni a bwyd a gofal iechyd, ran bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at **wydnwch** yr economi lleol yn y **tymor hir**.

Gydag amcangyfrifon am y boblogaeth sy'n heneiddio yn Nhorfaen, gallai hyn olygu galw cynyddol am rai gwasanaethau gofal ac iechyd yn y dyfodol. Gall datblygiadau technolegol olygu bod angen sgiliau newydd i weithio yn y sector hwn.

Bydd angen y sgiliau cywir ar genedlaethau'r dyfodol i elwa ar swyddi sy'n gysylltiedig â'r cam i newid i Gymru ddi-garbon, ee y rhai sy'n ymwneud â datgarboneiddio cartrefi yn Nhorfaen.

Gall ystod lu o ffactorau, nifer ohonynt y tu hwnt i'n gallu i ddylanwadu arnynt, effeithio ar gadwyni cyflenwi bydeang.

Yn 2021 gwelwyd effaith materion cadwyni cyflenwi ynni a chynnydd o ran costau nwy cyfanwerthol.

Yn ogystal â bod yn effeithlon o ran ynni, mae angen cyflenwadau ynni diogel ar fusnesau nawr ac yn y dyfodol yn Nhorfaen.

Bydd gweithlu'r dyfodol sy'n meddu ar sgiliau galwedigaethol yn fuddiol iawn i'r sectorau gweithgynhyrchu, lletygarwch, adeiladu, ac iechyd a gofal.

Bydd hyfforddi yn y gweithle, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli yn helpu cenedlaethau'r dyfodol i ddod o hyd i waith gweddus ac osgoi tlodi yn y gwaith.

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am nifer y bobl ym Mhont-y-pŵl a fuodd ar ffyrlo, y cafodd eu horiau gwaith eu lleihau neu a gollodd eu horiau gwaith neu y newidiodd eu gwaith o ganlyniad Covid-19. Nid ydym hefyd yn gwybod beth fydd effaith tymor hwy y pandemig ar gyflogaeth.

Prif safleoedd cyflogaeth

Mae 8 prif ardal ddiwydiannol, gan gynnwys y Cae Polo yn Y Dafarn Newydd, Parc Diwydiannol Gogledd Pont-y-pŵl a Stad Ddiwydiannol De Pont-y-pŵl. Mae Stad Ddiwydiannol Mamheilad a Pharc Busnes Bro Wysg yn y gogledd ddwyrain. Mae gan bob un fynediad da i'r M4.

Nid oes llawer o leoedd ar ôl yn ardal Pont-y-pŵl y gellir eu defnyddio fel cyfleoedd i ddatblygu cyflogaeth yn y dyfodol. Mae'r Cynllun

Datblygu Lleol Newydd yn ceisio gwarchod safleoedd cyflogaeth presennol a dyrannu safleoedd newydd lle bo'n addas er mwyn cefnogi ac annog yr economi yn Nhorfaen.



Mae Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd y DU yn nodi y gallai fod cyfleoedd i fusnesau yn sgil cynnydd yn y galw am nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud ag addasiadau, a chynnydd mewn twristiaeth a gweithgaredd awyr agored. Nodwyd prinder dŵr, llifogydd mewn eiddo ac amhariadau i gadwyni cyflenwi a rhwydweithiau dosbarthu yn risgiau i fusnesau ⁴⁹.

Bydd angen i genedlaethau'r dyfodol gydbwysu'r pwysau ar ddefnyddio tir.

Trwy wella'r camu i reoli seilwaith gwyrdd, gall genedlaethau'r dyfodol gael blas ar y manteisio economaidd ac amgylcheddol y gallai hyn eu darparu, yn cynnwys helpu Torfaen i addasu i hinsawdd sy'n newid a chynnig tir ar gyfer cyflogaeth, tai, hamdden a chynhyrchu ynni.

5. Yr Amgylchedd



Mae ein haer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phriddoedd yn darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, pren, tanwydd a hamdden, maent hefyd yn darparu gwasanaethau llai gweladwy gan gynnwys rheoli dŵr, cefnogi pryfed sy'n peillio, a storio carbon.

Mae'r rhan hon o'r asesiadau yn dweud wrthym am gyflwr a gwytnwch adnoddau naturiol Blaenafon ac yn nodi'r heriau rheoli yn y tymor hir.

Nodweddion nodedig	Coetir hynafol, rhostir, parcdir, gwrychoedd, glaswelltir corsiog, dŵr llonydd agored, mannau creigiog, brithwaith o gynefinoedd agored ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, glaswelltir asidig a niwtral wedi'i wella i raddau, coridorau camlesi ac afonydd'.
Rhywogaethau nodedig	Dyfrgi, cimwch yr afon, ystlum pedol leiaf, llysywen Ewropeaidd, brithyll brown, y gwibiwr llwyd, y penllwyd, ffwlbart, llyffant, llinos, coch y berllan.
Dynodiadau cadwraeth natur allweddol	Gwarchodfa Natur Leol Cwm-ynys-cou, GNL Coridor Cwmafon GNL Tirpentwys. Sawl Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur a Phum Safle

Rhanbarthol o Bwysigrwydd Daearegol. SRhBD Cronfa Ddŵr Llandegfedd a Thy'r- hen forwyn. Coridorau ecolegol Afon Lwyd a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu.

Saif Pont-y-pŵl ar y gyffordd rhwng cynefinoedd tir uchel y gogledd a thirwedd amaethyddol y tiroedd isel yn bennaf i'r de a'r dwyrain. Mae ei orffennol diwydiannol wedi dylanwadu ar yr amgylchedd naturiol a welwn heddiw – o seilwaith camlesi, hen safleoedd chwareli, mwyngloddiau, gweithfeydd haearn a gefeiliau, i'r cynefin ôl-ddiwydiannol ecolegol pwysig sydd wedi datblygu ar domenni gwastraff glo.

Mae **Camlas Mynwy ac Aberhonddu** a ddefnyddiwyd ar un adeg i symud deunyddiau craidd, yn amgylchynu Pont-y-pŵl cyn llifo i mewn i Sir Fynwy wledig a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er nad oes modd ei fordwyo y tu hwnt i Bum Loc a Phontnewydd yn y cyfeiriad arall, mae'r gamlas yn goridor pwysig i fywyd gwyllt gan gysylltu, a darparu llwybr rhwng rhannau tameidiog o gynefinoedd.

Yn y de, mae'r hen chwarel galchfaen segur yng **Nghwm-ynys-cou** yn **Warchodfa Natur Leol** a safle daearegol o bwysigrwydd rhanbarthol. Mae'n gartref i rywogaethau pwysig yn cynnwys ystlumod a thylluanod gwynion.

Erys rhai ardaloedd darniog o gynefin glaswelltir wedi'i wella i raddau o fewn a rhwng cymunedau trefol Pont-y-pŵl. Mae'r ardaloedd hyn yn gyfoethog o rywogaethau, er eu bod o werth bioamrywiaeth isel o ganlyniad i drefniadau rheoli glaswellt traddodiadol, ond gyda'r

rheolaeth gywir, gallent fod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer pryfed sy'n peillio a blodau gwyllt.

Mae Afon Lwyd yn un o brif nodweddion naturiol Pont-y-pŵl a'i chymunedau. Mae'r afon yn rhedeg gerllaw Parc Pont-y-pŵl, sef yr ardal fwyaf o fannau gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn y dref ac sy'n gartref i goed hynafol a rhywogaethau a warchodir, fel dyfrgwn, cimwch yr afon ac ystlumod pedol lleiaf.

Gallai mynediad da a theg i fannau agored ar gyfer hamdden a gweithgaredd corfforol gefnogi ffyrdd iach o fyw.

Rhwng Pont-y-pŵl a Blaenafon, mae ochrau'r dyffryn gellir adnabod yr ardaloedd yn ôl eu cyfoeth o goetiroedd lled-naturiol hynafol. Mae hyn yn cynnwys **Gwarchodfa Natur Leol Coridor Cwmafon** sy'n gorchuddio ardal o dros 45 hectar. Mae llwybr beicio yn dilyn llwybr hen rheilffordd drwy laswelltir a choedwig aeddfed sy'n gartref i Derw, Ffawydd a Chyll.

Mae coedwigoedd ffawydd wedi eu nodi fel rhai sydd mewn perygl penodol mewn hinsawdd sy'n newid am eu bod yn agored i lai o law yn yr haf a thymheredd sy'n cynyddu.⁵⁰

Mae clefyd *Phytophthora* coed Llarwydd ac Ynn wedi effeithio rhywfaint ar goetir rhwng Pont-y-pŵl a Blaenafon. Mae hyn yn golygu bod ardaloedd sylweddol o Larwydd ac Ynn wedi'u torri i atal y ddau afiechyd rhag lledaenu ymhellach.

Mae coetiroedd ar ochr dyffrynnoedd yn gweithio'n effeithiol i gymedroli dŵr ffo. Rhagwelir y bydd Torfaen y Dyfodol yn wynebu tywydd mwy eithafol - gan gynnwys glawiad dwys.

Amcangyfrifwyd bod gorchudd canopi coed Pont-y-pŵl ac Abersychan yn **23%** yn 2013⁵¹

Mae coed yn bwysig mewn ardaloedd trefol oherwydd gallant liniaru effeithiau eithaf newid yn yr hinsawdd, gan helpu i leihau dŵr ffo stormydd ac effaith yr ynys wres trefol⁵².

Mae rhai ardaloedd bach o blanhigfeydd coniferaidd yn ardal Pont-y-pŵl, sy'n eiddo'n bennaf i Gyfoeth Naturiol Cymru. Gyda rheolaeth gynaliadwy, gall planhigfeydd ddarparu pren ar gyfer adeiladu⁵³.

Lle mae'r amgylchedd eisoes dan straen, er enghraifft trwy golli cynefinoedd a thiroedd darniog, yna mae'r risgiau o newid yn yr hinsawdd yn uwch⁵⁴.

Water quality	O dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, mae Afon Lwyd uchaf a'i llednentydd, o'i tharddiad ym Mlaenafon i'r gamlas ym Mhont-y-pŵl, wedi'i rhestru fel man â statws ecolegol gwael .
----------------------	---

Mae'r rhesymau dros y fath statws yn cynnwys **rhwystrau** i daith pysgod, amheuaeth bod **carthffosiaeth yn cael ei ollwng**, sy'n effeithio ar bysgod a lefelau ffosffad a'r tebygolrwydd o **lygredd** o'r seilwaith cloddio segur. Mae'r Afon Lwyd isaf a'r llednentydd y tu hwnt i'r gamlas o statws ecolegol da⁵⁵.

Nid yw pob rhywogaeth dŵr croyw yn gallu goddef tymheredd uwch sy'n gysylltiedig â hinsawdd sy'n newid a gall dŵr cynnes gynnwys llai o ocsigen.

Mae **llysiau'r dial** hefyd yn rhoi adnoddau naturiol dan bwysau ym Mhont-y-pŵl a'r cymunedau sy'n ei hamgylchynu. Gall y rhywogaeth yma o blanhigion anfrodorol ymledol drechu fflora brodorol a gall achosi difrod strwythurol i adeiladau a seilwaith adeiledig arall.

Daw newid yn yr hinsawdd â bygythiad cynyddol i'n planhigion a'n hanifeiliaid brodorol, a hynny gan blâu a chlefydau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, a gan rywogaethau anfrodorol ymledol ⁵⁶.

Potensial am ynni adnewyddadwy	Dengys astudiaethau'r potensial i greu mwy o ynni drwy offer ffotofoltaig ar ben toeon, pŵer gwynt a dŵr. Mae hefyd peth potensial i greu cynlluniau gwresogi rhanbarthol ⁵⁷ .
---------------------------------------	---

Mae yna nifer o offer **ffotofoltaig ar doeon** adeiladau preifat a chyhoeddus yn ardal Pont-y-pŵl a'r capasiti am hyd yn oed mwy.

Gallai'r cribau uchel a'r llwyfandiroedd i'r dwyrain a'r gorllewin o Bont-y-pŵl ddarparu adnodd gwynt a allai fod o bwysigrwydd sylweddol e. Bydd rhaid ystyried unrhyw gynigion yng ngoleuni'r effaith ar y dirwedd o fewn a thu hwnt i'r fwrdeistref sirol. Bydd hefyd rhaid asesu unrhyw effaith ar fioamrywiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod tir i'r gorllewin o Bont-y-pŵl a Chwmbrân yn addas ar gyfer **tyrbinau gwynt**, a chanfu rhan o'u gwaith cyn-asesu y byddai'r effaith bosibl ar y dirwedd yn dderbyniol.



Mae Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU yn nodi y byddai dŵr sy'n cynhesu yn peri risgiau i rywogaethau dŵr croyw yng Nghymru. Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod angen mwy o dystiolaeth ynghylch graddfa risg ac effeithiolrwydd y mesurau addasu.⁵⁸.

Gall hen safle gwaith haearn 'Y British' yn Abersychan gynnig cyfleoedd ar gyfer ystod eang o dechnolegau ynni adnewyddadwy i gynnwys **solar, hydro a gwynt** yn rhan o gamu adfywio'r ardal yn y tymor hwy. Gallai cynlluniau **rhwydwaith gwresogi** gynnig potensial mewn perthynas â safleoedd datblygu strategol a chanol y dref.



Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi ynni a'r amgylchedd fel sector economaidd â blaenoriaeth gyda'r potensial i greu ffyniant yn y rhanbarth dros y 10 - 20 mlynedd nesaf ⁵⁹.

Gall ansawdd aer gwael a achosir gan allyriadau o drafnidiaeth tanwydd ffosil gael effaith negyddol ar iechyd. Gellir gwella ansawdd aer drwy osgoi teithiau diangen, newid i gerbydau trydan, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, neu drwy gerdded a beicio mwy.

Ansawdd Aer	Mae'r monitro a wnaed yn Nhorfaen yn 2020 yn datgelu bod ansawdd yr aer yno yn bodloni'r holl safonau cenedlaethol, gyda chrynodiadau o'r holl lygryddion a fesurir, o fewn yr amcanion ansawdd aer penodedig ⁶⁰ . Ond, mae'r monitro ar lefel leol wedi dangos bod man amlwg lle ceir llygredd traffig i'r gogledd o dref Pont-y-pŵl, ar y brif ffordd rhwng Pontnewynydd ac Abersychan.
--------------------	--

Mae gwella'r rheolaeth ar ein hadnoddau naturiol yn golygu y byddwn yn gallu mynd i'r afael yn well â heriau fel newid yn yr hinsawdd, trechu tlodi ac anghydraddoldeb, a gwella iechyd pobl.

Fel rhan o waith ar y cyd i wella lles yn Nhorfaen, mae Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a rennir wedi'i datblygu. Mae'n amlinellu blaenoriaethau a chyfleoedd ar gyfer cryfhau cydnerthedd a chysylltedd rhwydwaith seilwaith gwyrdd Torfaen⁶¹. Mae blaenoriaethau allweddol ar gyfer Pont-y-pŵl yn cynnwys:

- Hyrwyddo deall yr amgylchedd yn well.
- Gwella'r modd y rheolir adnoddau dŵr.
- Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy.
- Cefnogi cadwraeth treftadaeth.
- Gwella'r rhwydwaith Hawliau Tramwy.
- Rheoli a phlannu coed mewn ardaloedd llygredig.
- Cynnal a rheoli parciau a gerddi cyhoeddus.
- Rheoli ardaloedd o laswelltir i gynnal pryfed peillio.

6. Diwylliant

Mae'r rhan hon o'r asesiad yn dweud wrthym am ddiwylliant ym Mhont-y-pŵl o'r gweithgareddau gwirfoddoli, hamdden a chwaraeon y mae pobl yn eu mwynhau, i dreftadaeth ddiwydiannol unigryw ac amgylchedd naturiol yr ardal.

Atyniadau allweddol	Llethr sgïo sych, Ogof Gregyn a Thwr Ffoli Pont-y-pŵl, Parc Pont-y-pŵl a'r Gerddi Eidalaidd Basn Pont-y-moel ac ardal y Gamlas .
Dynodiadau treftadaeth allweddol	Ardal Gadwraeth Canol Tref Pont-y-pŵl. Parc Pont-y-pŵl -Gradd II Rhestredig

Mae cynnwys y gymuned leol yn arwyddocâd eu treftadaeth a gydnabyddir yn fyd-eang yn bwysig er mwyn sicrhau ymdeimlad o le a chynyddu balchder a lles cymunedol.

Mae gan Bont-y-pŵl dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol, o adeiladau dinesig a chrefyddol pwysig, i Barc Pont-y-pŵl gyda'i Erddi Eidalaidd.

Gall Blaenafon a Thorfaen ddisgwyl wynebu hinsawdd sy'n newid gyda thywydd mwy eithafol yn y dyfodol. Gallai hyn effeithio ar y treflun hanesyddol.

Mae Pont-y-pŵl yn gartref i ystod o glybiau a chymdeithasau, o Gymdeithas Hanes Lleol sy'n cynnal darlithoedd yn fisol i'r rheini a gynhelir gan lyfrgell Pont-y-pŵl a'r ganolfan addysg oedolion.

Mae poblogaeth hŷn Pont-y-pŵl yn cael eu gwasanaethu'n dda gan grwpiau fel y Gymdeithas i Ddynion sydd Wedi Ymddeol a Widdershins, dan ofal Age Connects Torfaen. Mae yna hefyd nifer o dimau bowlio ac opsiynau eraill ar gyfer ymarfer corff ysgafn.

Mae lleoliadau cymunedol amrywiol yn darparu gweithgareddau i blant a theuluoedd tra bod nifer dda bob amser yn mynychu digwyddiadau teuluol blynyddol mwy fel Parti yn y Parc. Mae yna hefyd ganghennau lleol o Frigâd y Bechgyn a Llu Cadetiaid y Fyddin.

Yn aml, y tro cyntaf y ceir y cyfle i flasw chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol fydd yn yr ysgol, a gall sbarduno diddordeb a chyfranogiad gydol oes.

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol o ran cefnogi treftadaeth ddiwylliannol Pont-y-pŵl ac mae grwpiau'n cynnwys Cyfeillion Gwirfoddol Tref Pont-y-pŵl, Cyfeillion Parc Pont-y-pŵl ac Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen sy'n gweithredu Amgueddfa Torfaen ym Mhont-y-pŵl.

Bydd cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn gallu helpu pobl i deimlo'n rhan o'u cymuned. Gall hefyd ddod â phobl o wahanol oedrannau a chefnidir at ei gilydd, gan helpu i gefnogi cydlyniant cymunedol a helpu i leihau teimladau o unigrwydd ac arwahanrwydd.

Mae gwirfoddoli yn cynnig y cyfle i gwrdd â phobl newydd, magu hyder a dysgu sgiliau gwaith newydd ar gyfer y dyfodol yn ogystal â chael hwyl mewn lleoliad anffurfiol.



Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen sy'n gyfrifol am weithredu Canolfan Byw Egnïol Pont-y-pŵl a Chanolfan Sgio Pont-y-pŵl, ym Mharc Pont-y-pŵl.

Ffigur 13: Canolfan Sgio Pont-y-pŵl

Mae llawer o glybiau chwaraeon ar draws Pont-y-pŵl a'i chymunedau, gyda llawer ohonynt yn cael eu cefnogi gan wirfoddolwyr. Ymhlith y clybiau pêl-droed mae Cwmffrwdor, Y Dafarn Newydd, a Threfddyn. Mae clybiau rygbi yng nghymunedau Abersychan, Garndiffaith a Thal-y-waun. Ceir clybiau criced ym Mhanteg, Pentwyn a Phontnewynydd

Yn y blynyddoedd diweddar mae Parc Pont-y-pŵl wedi dod yn boblogaidd ymhlith pob oed. Mae clybiau rhedeg lleol yn cynnwys *Griffithstown Harriers* a Rhedwyr Pont-y-pŵl a'r Cylch.

Mae diddordeb cynyddol mewn beicio mynydd ym Mhont-y-pŵl, ac mae yna o leiaf ddau grŵp yn bodoli ar hyn o bryd.

Yn ogystal â dod â phobl ynghyd, mae manteision ymarfer corff a gweithgaredd corfforol i'r iechyd wedi'u dogfennu'n dda.

Mae llawer o deithiau a llwybrau cerdded o amgylch y drefwedd hanesyddol hon a'r ardaloedd y tu hwnt, gan gynnwys ar hyd Afon Lwyd, drwy'r dirwedd tir uchel neu ar lwybr tynnu'r gamlas. Mae'r gerddi, yr Ogof Gregyn gothig a'r Ffoli eiconig a basn Pont-y-moel yn cynnig digon i'w weld ar hyd y ffordd. Mae Ewch am Dro Torfaen yn cynnig cymorth gyda theithiau cerdded cymdeithasol i bobl o wahanol alluoedd.



Ffigur 7: Golygfa o Lyn Llandegfedd yn y pellter

Mae Llyn Llandegfedd, ar ffin Sir Fynwy, hefyd yn cynnig cyfleoedd i gerdded, ochr yn ochr â campau dŵr, gwyllo adar a physgota.

Bydd cefnogi pobl i fyw bywydau iach, lle gallant gyflawni eu potensial addysgol a dod yn rhan o weithlu iach, yn cyfrannu at les economaidd ehangach.

Cyn Covid, dywedodd trigolion Pont-y-pŵl wrthym.....

Chwaraeon a Hamdden



Dywedodd **83.1%** o'r rheini a ymatebodd bod chwaraeon a hamdden yn bwysig iawn/weddol bwysig iddynt. Mae **35.4%** o'r rhieni a ymatebodd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn wythnosol ⁶².

Celfyddydau a Diwylliant



Dywedodd **55.7%** o'r rheini a ymatebodd bod y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn bwysig iawn/weddol bwysig iddynt.

Mae **19.2%** o'r rheini a ymatebodd yn cymryd rhan yn y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn fisol. Dywedodd **24.8%** nad ydynt byth yn cymryd rhan yn y celfyddydau na gweithgareddau diwylliannol.

Dywedodd arolwg trigolion a gynhaliwyd cyn Covid nad yw pawb sy'n mwynhau chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn cymryd rhan ynddynt yn rheolaidd.

Bydd sicrhau bod ein holl gymunedau yn cael mynediad cyfartal i fannau gwyrdd ar gyfer hamdden a gweithgaredd corfforol yn gallu cefnogi ffyrdd iach o fyw.

Mae'r arolwg hefyd yn dweud wrthym nad oedd pawb a nododd fod gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn bwysig iddynt, yn cymryd rhan ynddynt yn rheolaidd.

Gwyddom fod gan rai o gymunedau Pont-y-pŵl lefelau uchel o sawl math gwahanol o amddifadedd, a bod aelwydydd yn wynebu amddifadedd o ran incwm, , mae hyn yn golygu bod fforddiadwyedd yn debygol o fod yn rhwystr i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol eraill.

Os yw cenedlaethau'r dyfodol am wireddu'r buddion iechyd a geir wrth fod yn actif, yna mae angen mynd i'r afael â'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan.

7 Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym

Ochr yn ochr ag edrych ar y data, rydym wedi cynnwys ein cymunedau i gael gwell dealltwriaeth o brofiadau pobl a gwerthfawrogi sut y gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd i wella llesiant, gan ganolbwyntio ar gryfderau ein pobl a'n lleoedd. Mae'r adran hon yn dweud wrthym beth mae pobl sy'n byw yn Nhorfaen yn ei feddwl am lesiant yn eu cymuned.

Ar ddiwedd haf 2021 gofynnwyd i drigolion ledled Gwent lenwi holiadur llesiant. Derbyniwyd cyfanswm o 127 o ymatebion gan bobl sy'n byw yn Nhorfaen. Gofynnwyd 4 cwestiwn i'n cymunedau:


Beth sy'n arbennig am eich cymuned?

Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?

Sut hoffech chi i'ch cymuned edrych yn y dyfodol?

Sut gall eich cymuned weithio gyda ni i wneud i hynny ddigwydd?

Mae Ffigur 15 yn grynodeb o'r themâu allweddol, sydd ym marn y bobl, yn arbennig am gymunedau yn Nhorfaen a'r hyn y credent fyddai'n eu gwneud yn lleoedd gwell.



Ffigur 8: Yr hyn y mae trigolion yn Nhorfaen yn dweud sy'n arbennig a'r hyn fyddai'n gwneud eu cymunedau yn well

Asesiad Lles Pont-y-pŵl

C1 Beth sy'n arbennig am eich cymuned?	C2 Beth fyddai'n gwneud eich cymuned yn lle gwell?	C3 Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?	C4 Sut hoffech chi i'ch cymuned edrych yn y dyfodol?	C5 Sut gall eich cymuned weithio gyda ni i wneud i hynny ddigwydd?
Mynediad at fan agored (30)	Diogelwch cymunedol (20)	Diogelwch cymunedol (48)	Diogelwch cymunedol (20)	Ymgysylltiad cymunedol (11)
Cydlyniant cymunedol (24)	Sbwriel (15)	Mynediad at wasanaethau (15)	Ysbryd cymunedol (16)	Cydlyniant cymunedol (4)
Ysbryd cymunedol (15)	Mesurau arafu traffig (10)	Mynediad at weithgareddau (14)	Mynediad at fan glân (14)	Grwpiau cymunedol/Ysbryd cymunedol/ Gwirfoddoli (3)

Ffigur 16: Y tri phrif ymateb i Dorfaen

Mae Ffigur 16 yn dangos y prif ymatebion i gwestiynau'r arolwg gan bobl sy'n byw yn Nhorfaen.

Dywedodd cymunedau ym Mhont-y-pŵl wrthym fod cael **mynediad i drafnidiaeth** yn bwysig i'w bywydau dyddiol. Dywedont wrthym y byddai **mynd i'r afael ag amserau trafndiaeth gyhoeddus** ynghyd â darparu **trafnidiaeth fwy fforddiadwy** yn helpu i ddarparu gwasanaeth sy'n well i bawb.

Dywedodd pobl wrthym hefyd fod **diogelwch** yn eu cymuned yn bwysig iawn iddynt a sut y byddai **cynyddu presenoldeb yr heddlu** ar y strydoedd yn gwneud llawer i wneud i bobl deimlo'n fwy diogel yn eu cymunedau lleol.

8 References

- ¹ Amcangyfrifon poblogaeth canol 2019 SYG
- ² Amcangyfrifon poblogaeth canol 2019 SYG
- ³ Cofrestr Treth y Cyngor Torfaen. Mawrth 2021
- ⁴ Amcangyfrifon poblogaeth canol 2019 SYG
- ⁵ Amcangyfrifon poblogaeth canol 2018, Llywodraeth Cymru
- ⁶ ACB SYG 2019
- ⁷ Amcangyfrifon poblogaeth canol 2018, Llywodraeth Cymru
- ⁸ ACB SYG 2019
- ⁹ Amcangyfrifon poblogaeth canol 2018, Llywodraeth Cymru
- ¹⁰ Amcangyfrifon poblogaeth canol 2018, Llywodraeth Cymru
- ¹¹ ACB SYG 2019
- ¹² ACB SYG 2019
- ¹³ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS204EW
- ¹⁴ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS204EW
- ¹⁵ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS201EW
- ¹⁶ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS209EW
- ¹⁷ Adolygiad terfyn cyflymder. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. 2014
- ¹⁸ Arolwg Cyflymder. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2019
- ¹⁹ Arolwg Cyflymder. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2021
- ²⁰ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS605EW
- ²¹ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl WU03UK_MSOA
- ²² Data Dangosol MALIC 2019, Llyw Cymru
- ²³ Arolwg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2018.
- ²⁴ Arolwg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2021.
- ²⁵ Data Dangosol MALIC 2019, Llyw Cymru
- ²⁶ Asiantaeth y Swyddfa Brisiol. 31 Mawrth 2021
- ²⁷ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS402EW
- ²⁸ Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017: Adroddiad Tystiolaeth. Crynodeb i Gymru.
- ²⁹ Cofrestrfa Tir. 2020
- ³⁰ SYG (2020). Nomis
- ³¹ Cymdeithas Rhandroedd y Cwm Dwyreiniol. Hyd 2021.
- ³² Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru
- ³³ Cymdeithas Rhandroedd y Cwm Dwyreiniol. Hyd 2021.
- ³⁴ Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. 2020
- ³⁵ Arolwg Trigolion Torfaen (2017). Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- ³⁶ Data Dangosol MALIC 2019, Llyw Cymru.
- ³⁷ Pob Marwolaeth: Cyfraddau Marwolaeth (Safoni yn ôl Oedran) fesul 100K pob – Cyf. 3 bl, 2015-17. Healthmapswales.wales.nhs.uk.
- ³⁸ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru
- ³⁹ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru
- ⁴⁰ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru
- ⁴¹ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru
- ⁴² Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru
- ⁴³ Hynt Disgyblion, Gyrfa Cymru, 2018-2020
- ⁴⁴ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl WP605EW
- ⁴⁵ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS601EW
- ⁴⁶ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS501EW
- ⁴⁷ SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl WP605EW
- ⁴⁸ [Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)
- ⁴⁹ Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017, Adroddiad Synthesis: blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.
- ⁵⁰ Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen. Chris Blandford Associates. 2020.
- ⁵¹ Gorchudd Coed y Dref ym Mwrdeistref Sirol Torfaen, 2016. CNC..
- ⁵² CNC (2012) - Gorchudd Coed y Dref ym Mwrdeistref Sirol Torfaen - Deall gorchudd coed yn well i gynllunio a rheoli ein coed trefol yn well.
- ⁵³ Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen. Chris Blandford Associates. 2020.

Asesiad Lles Pont-y-pŵl

⁵⁴ Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017, Adroddiad Synthesis: blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.

⁵⁵ Cynllun Adfer Strategol ar gyfer Afon Lwyd. JBA Consulting. CNC 2020.

⁵⁶ Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017, Adroddiad Synthesis: blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Pwyllgor ar Newid Hinsawdd..

⁵⁷ Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Asesiad ynni adnewyddadwy a charbon isel. Crynodeb Annhechnegol. Ymddiriedolaeth Carbon. 2020.

⁵⁸ Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017: Adroddiad Tystiolaeth. Crynodeb i Gymru.

⁵⁹ [Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)

⁶⁰ Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (2021), Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer ar gyfer 2021

⁶¹ Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen. Chris Blandford Associates. 2020.

⁶² Arolwg Trigolion Torfaen (2017). Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen